Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Henllan

Ysgol Henllan
Denbigh Road
Henllan
LL16 5AW

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Henllan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Henllan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Albert Leverett a Sian Elen Lewis Roberts. |
| Person â gofal | Sian Elen Lewis Roberts, Clarissa Davies. |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | Rhwng 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 o blant tair-blwydd oed a 4 o blant pedair-blwydd oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener am 8:45yb i 3:15yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a ail ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail-gofrestri. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Mawrth 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/05/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi o leiaf bob chwech mis.

A2. Sicrhau cysondeb yn rhediad y lleoliad er mwyn cefnogi lles ymarferwyr.

A3. Sicrhau bod pob ymarferydd yn cael goruchwyliaeth ac arfarniadau ffurfiol yn amserol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu’n hyderus drwy siarad a mynegi eu hunain yn effeithiol. Maent yn trafod eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn llawn diddordeb ac maent yn cael hwyl yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn mwynhau amser tawel yn yr ardal gyfforddus yn darllen llyfrau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac yn ymgartrefu’n dda. Maent yn gyfarwydd â'r drefn dyddiol ac yn setlo'n gyflym wrth gael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan yr ymarferwyr. Maent yn barod iawn i ofyn i’r ymarferwyr am gymorth neu am gysur, pan fo’r angen yn codi. Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni’r ymarferwyr ac yn mwynhau ymuno yn y canu a gwrando ar storïau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â’u ffrindiau a gyda’r ymarferwyr ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill, er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, ac o ganlyniad, maent yn datblygu agweddau da tuag at ei gilydd. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn briodol wrth rannu deunyddiau a chymryd tro ar yr offer mawr yn yr ardal allanol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio yn eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau’n bwrpasol. Maent yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol yr ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Maent wrth eu bodd yn archwilio byd natur gan ddefnyddio chwyddwydr i archwilio pryfed. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau creadigol wrth greu hufen ia gyda hylif eillio a chreu lluniau yn y tywod.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio tortsys i archwilio deunyddiau yn fanwl, fel rhisgl coeden, gan gymryd diddordeb yn y gwead.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar addysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn amserol. Maent yn meithrin perthynas hyfryd â’r plant ac yn canmol eu hymdrechion yn gyson, gan ddathlu eu llwyddiannau’n frwdfrydig. Maent yn rhyngweithio â’r plant â thynerwch ac yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar, sy’n hybu lles a dysgu’r plant.

Mae’r ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chadw'r plant yn ddiogel. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn addas. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn hybu’r plant i fod yn egnïol ac i chwarae yn yr awyr iach yn aml. Maent yn atgoffa’r plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu hannog i fwyta'n iach gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llefrith ar gael yn hwylus. Mae mwyafrif o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i oedran y plant. Maent yn cynnal ymarferion tân ond nid yw'r rhain yn cael eu nodi yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi eu horiau presenoldeb ac oriau presenoldeb y plant. Maent yn nodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau bod y rhieni a gofalwyr yn llofnodi'r cofnod er mwyn dangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth sensitif i bob plentyn. Maent yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn setlo a bod eu profiadau chwarae a dysgu yn gadarnhaol. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd cynhwysol. Mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau yn effeithiol ac yn dilyn trefniadau cadarn i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Maent yn dangos lluniau o'r plant yn dathlu gwyliau drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau crefft, cerddoriaeth ac adrodd straeon.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i gynllunio’n ofalus ac yn effeithiol ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau profiadau dysgu ysgogol sydd yn ennyn diddordeb a bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Maent yn adeiladu’n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant. Maent yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol a phwrpasol tu fewn a thu allan, sy’n galluogi iddynt i ymarfer a chymhwyso eu medrau yn barhaus. Maent yn ystyried anghenion a chamau datblygiadol unigol y plant yn effeithiol. Maent yn cynnwys amrediad amrywiol o adnoddau a gweithgareddau hwyliog a difyr, sydd yn annog y plant i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu’n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd. Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu

gweithgareddau i ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi.

Mae ymarferwyr yn cwestiynu'r plant yn fedrus. Maent yn holi cwestiynau sydd yn profi a herio dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Maent yn cefnogi'r plant yn sensitif i fynegi eu hunain, a lle nad oes gan blant lawer o ddealltwriaeth o'r iaith Gymraeg eto, maent yn bwydo geirfa, gan arddangos dealltwriaeth cryf o ddatblygiad plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ffurfiau llafar a chaneuon cyfarwydd gan bwysleisio geirfa berthnasol fel gwasgu, rolio, tynnu a meddal. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant.

Mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd darllen y tu fewn a thu allan sy'n denu'r plant i ddewis llyfrau yn ddigymell. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i eistedd gyda'r plant a'u holi'n fedrus am y lluniau a'r storïau. Mae hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant ac yn creu darllenwyr cynnar sy'n hoff o lyfrau. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac i greu marciau. Mae creonau, sialc, ewin eillio a thywod mewn sawl ardal sydd yn denu plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd cynnar.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da o weithgareddau, adnoddau a chyfleoedd i chwarae'n rhydd ynghyd a thasgau wedi eu harwain gan oedolyn. Maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth briodol o bryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu i blant barhau yn annibynnol yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o'r ardd sy'n sbardun effeithiol i blant ddarganfod a datblygu eu synnwyr o ryfeddod am yr amgylchfyd naturiol a byd natur. Mae ymarferwyr yn datblygu amryw o fedrau plant yn llwyddiannus fel eu medrau corfforol, rhifedd a'u medrau datrys problemau drwy eu hannog i fod yn anturiaethwyr natur wrth wneud helfa drychfilod.

Mae'r ymarferwyr yn trefnu profiadau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig. Gwneir hyn trwy weithgareddau crefft, storïau a dathliadau penodol fel dyddiau arbennig i'r Cymry. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn ymyrryd yn briodol i annog plant i ddeall rheolau ymddygiad syml fel tegwch, gonestrwydd a pharch, a'u hannog i rannu adnoddau, cymryd tro a bod yn garedig gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn croesawu ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant ac maent yn dechrau ymweld â sefydliadau yn y pentref, fel y parc a'r eglwys, i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin.

## Yr amgylchedd: Da

Mae’r arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol a diddorol i ddatblygu medrau’r plant yn fwriadus. Maent yn sicrhau ardaloedd dysgu a chwarae diogel. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cyfoethogi lles, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu tu mewn a thu allan.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o’r lleoliad. Mae drysau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael eu cadw. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd. Maent yn cwblhau asesiadau risg yn effeithlon ac maent yn amlinellu’r camau i’w cymryd i leihau ac atal risgiau i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd iawn ac maent yn dilyn canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau’n dda.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi’r plant i symud o gwmpas yn hyderus, gan wneud dewisiadau doeth a dilyn eu diddordebau yn synhwyrol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda trwy gydol eu profiadau chwarae a dysgu.

Mae’r arweinwyr wedi creu ardal addas i blant storio eu heitemau personol, sy’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau diddorol o adnoddau naturiol i feithrin medrau’r plant yn llwyddiannus. Mae’r teganau a’r adnoddau wedi eu gosod yn bwrpasol ac o fewn cyrraedd y plant, sy’n caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau defnyddio. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder yn eu plith. Mae amrywiaeth dda o lyfrau ar gael, ac maent yn cael eu harddangos yn addas, gan annog y plant i'w darllen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn drefnus ac yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin sgiliau corfforol, creadigol a dychmygol y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol ac maent wedi trefnu ardaloedd iddynt blannu a thyfu blodau i feithrin eu sgiliau maethu. Mae’r arweinwyr yn trefnu digon o gyfleoedd i blant chwarae yng ngardd goetir hardd yr ysgol. Mae hyn yn rhoi amrywiaeth o brofiadau i blant archwilio pryfed, dringo'r banc garw a chwarae mewn amgylchedd naturiol i wella eu lles. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael mynediad i'r amgylchedd chwarae awyr agored i wella eu lles a'u sgiliau corfforol ym mhob tywydd. Maent yn sicrhau bod digon o ddillad ac esgidiau glaw i blant i wneud hynny'n effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Maent yn creu awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ac mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn addas. O ganlyniad mae ethos cartrefol, hapus a chroesawgar yn bodoli. Fodd bynnag, nid yw gweithredoedd yr arweinwyr bob amser yn bodloni'r safonau. Mae arweinwyr wedi paratoi datganiad o ddiben clir, sy'n hysbysu rhieni a gwarchodwyr yn dda am yr hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol y mae ymarferwyr yn eu dilyn yn addas.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol i arfarnu gwaith y lleoliad a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn addas. Maent yn barod iawn i gydweithio a derbyn cyngor gan asiantaethau allanol trwy dderbyn ymweliadau cefnogi rheolaidd a mynychu hyfforddiant er mwyn gwella darpariaeth ac ansawdd y lleoliad.

Yn ddiweddar mae arweinwyr wedi mynd i'r afael ag anghysondeb o ran staffio drwy drefnu tîm o ymarferwyr sefydlog. O ganlyniad maent yn dechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau bob amser yn sicrhau rhediad effeithiol y lleoliad sy'n cefnogi lles ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau ariannol yn effeithiol trwy ddatblygu'r amgylchedd a thrwy drefnu hyfforddiant addas i'r ymarferwyr. Mae'r arweinwyr wedi gwirio addasrwydd bob ymarferydd sy'n sicrhau eu bod yn gymwys ac yn meddu ar y profiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc ac mae eu rolau a chyfrifoldebau'n glir. O ganlyniad mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn parchu ac yn gwerthfawrogi gwaith yr holl ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, eu cefnogi'n effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau i drafod a chyd gynllunio gweithgareddau gyda'i gilydd. Mae hyn yn eu galluogi i wneud eu gorau dros y plant a chydymffurfio â'u gweledigaeth. Mae cymarebau staffio yn cyrraedd y gofynion statudol. Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu ymarferwyr, fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau bob amser yn cael eu ffurfioli na'u cynnal yn amserol.

Wrth i'r plant ddechrau yn y lleoliad mae'r ymarferwyr yn cysylltu gyda'u rhieni a gofalwyr er mwyn canfod anghenion a diddordebau'r plant. O ganlyniad maent yn darparu ar gyfer eu anghenion yn ddilys. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth llafar gyda rhieni yn ddyddiol wrth i'r plant mynd adref. Maent yn trafod materion datblygiadol yn ôl yr angen, a'r hyn mae'r plant wedi eu cyflawni yn ystod y sesiwn. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr yn gyson trwy apiau defnyddiol.

Mae'r lleoliad yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol ac mae perthynas waith effeithiol rhyngddynt hwy a'r athrawon dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r lleoliad i gefnogi'r plant wrth iddynt symud i'r dosbarth derbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2025